


# Maes Llafur Cytûn Torfaen ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Seiliedig ar  
Ganllawiau Crefydd,  
Gwerthoedd a Moeseg  
y Cwricwlwm  
i Gymru

Dyddiad Gweithredu:  
Medi 2022



TORFAEN  
COUNTY  
BOROUGH




BWRDEISTREF  
SIROL  
TORFAEN

## Tudalen

|    |   |
|----|---|
| 3  | Swyddogaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) |
| 3  | Manylion Cyswllt  |
| 4  | Rhagarweiniad   |
| 5  | Amcanion CGM  |
| 6  | Cynulleidfa   |
| 8  | Amser Cwricwlwm   |
| 8  | Cynllunio'r Cwricwlwm   |
| 11 | CGM Ôl-16   |
| 12 | Yr hawl i dynnu'n ôl yn y Cwricwlwm i Gymru   |
| 13 | Addoli ar y cyd   |
| 13 | Cwynion   |

## Y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg



Swyddogaeth y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar CGM yw cynghori'r awdurdod lleol ar faterion o'r fath sy'n gysylltiedig â darparu addysgu a dysgu, o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, naill ai mewn perthynas ag elfen orfodol CGM, neu'r addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir sef CGM dewisol sy'n cynnwys: dulliau addysgu; y dewis o ddeunyddiau addysgu; darparu hyfforddiant i athrawon. Yn ogystal, gall y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) roi cyngor ar unrhyw fater arall y gall yr ALI gyfeirio ato, neu yr ystyrir yn briodol ym marn y CYS.

### Manylion Cyswllt


I gael mwy o wybodaeth am CYS Torfaen, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r Maes Llafur Cytûn, cysylltwch â:

Dermot McChrystal, Prif Swyddog Addysg a Chyfarwyddwr Arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc [dermot.mcchrystal@torfaen.gov.uk](mailto:dermot.mcchrystal@torfaen.gov.uk)

Hayley Jones (Partner Cwricwlwm GCA – CYS a CMG) [hayley.jones@sewaleseas.org.uk](mailto:hayley.jones@sewaleseas.org.uk) ar 07904 644749.

## Rhagarweiniad

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yw'r enw y mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i Addysg Grefyddol yn y Cwricwlwm i Gymru. **Mae CGM yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 a16 oed.** Mae hyn bellach yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) y Dyniaethau, ochr yn ochr â Daearyddiaeth, Hanes, Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol. Mae CGM yn dal i gael ei bennu'n lleol ac felly, yn ogystal ag ystyried Canllawiau Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar Hwb, **rheid i bob ysgol yn Nhorfaen ystyried y Maes Llafur Cytûn ar gyfer CGM wrth gynllunio cwricwlwm yr ysgol.**



Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw monitro darpariaeth statudol CGM, ac mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Torfaen ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn eu cefnogi i wneud hyn.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob awdurdod lleol sefydlu a chefnogi Cynhadledd Maes Llafur Cytûn y mae'n rhaid iddi baratoi maes llafur CGM i'w fabwysiadu gan awdurdod addysg lleol.

Cafodd Canllawiau Statudol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y Cwricwlwm i Gymru ar Hwb ei fabwysiadu fel y Maes Llafur Cytûn newydd i Dorfaen ar gyfer CGM ar 18 Gorffennaf 2022 yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r All gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn ar 7 Ebrill 2022 a 16 Mehefin 2022.

**Gellir gweld y canllawiau statudol ar gyfer CGM yma:**

[Cyswllt i Hwb – Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#)

Ni fwriedir i'r maes llafur cytûn hwn fod yn gynllun gwaith. Mae'n darparu fframwaith lle gall pob ysgol ddylunio ei chwricwlwm lleol ei hun yn y ffordd orau, sy'n cynnwys CGM o fewn MDaPh y Dyniaethau.

## Nodau CGM

Mae CGM gorfodol yn gwneud cyfraniad pwysig a nodedig i gefnogi'r pedwar diben drwy roi cyfleoedd i ddysgwyr:

- **archwilio ac ymwneud â chwestiynau eithaf ac athronyddol** ynghylch ystyr, arwyddocâd a phwrpas bywyd, ac am natur meddwl bodau dynol a'r bydysawd, a'r cysylltiadau rhyngddyn nhw;
- **ymgymryd ag ymholiadau ac ymwneud â ffynonellau doethineb ac athroniaethau** sy'n eu hannog i archwilio heriau, cyfleoedd ac ymatebion bodau dynol yng nghyd-destun eu [cynefin](#), yn lleol, yng Nghymru a'r byd ehangach, yn ogystal â'u helpu i werthuso eu safbwyntiau eu hunain a rhai pobl eraill;
- **datblygu a mynegi eu safbwyntiau gwybodus eu hunain, a fydd yn eu paratoi ar gyfer dysgu gydol oes yn y byd plwraliaethol ac amrywiol hwn;**
- **defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am gredoau ac arferion** crefyddol ac anghrefyddol sefydliadol a phersonol, a'u dealltwriaeth ohonyn nhw, i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain ac am y ffordd y gallen nhw wneud penderfyniadau cymdeithasol a phersonol pwysig
- **ystyried ym mha ffyrdd y mae crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol wedi dylanwadu ar brofiadau dynol drwy gydol hanes**, fel y gallan nhw wneud synnwyr o'u lle yn y byd, dychmygu dyfodol posibl a chreu atebion cyfrifol sy'n ystyried anghenion a hawliau amrywiol pawb;
- **gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol er mwyn mynd i'r afael â materion egwyddorol a moesol** hanesyddol a chyfoes sy'n herio eu gwybodaeth a'u gwerthoedd. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o grefydd a chred, diwylliant, cymuned, eu [cynefin](#), Cymru a'r byd ehangach, nawr ac yn y gorffennol. Gall hyn helpu i feithrin ymdeimlad o le ac o berthyn;
- **ymateb yn sensitif i grefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol**, ac archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach, a'r ffordd y gallai'r rhain effeithio ar eu gweithredoedd a'u dewisiadau;
- **datblygu gwerthoedd pendant a sefydlu eu credoau egwyddorol a'u hysbrydolrwydd** drwy archwilio crefydd ac argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol ynghylch amrywiaeth o faterion. Gall hyn eu galluogi i ffurfio cydberthnasau cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chyd-barch;
- **trafod eu safbwyntiau eu hunain a safbwyntiau pobl eraill** ar amrywiaeth o faterion, a myfyrio arnyn nhw. Gall hyn eu helpu i feithrin eu lles meddyliol, emosiynol ac ysbrydol drwy ddatblygu hyder, gwydnwch ac empathi.

## Cynulleidfa

Mae'r canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau wedi cael eu hysgrifennu i fod yn hygyrch i bawb sy'n gyfrifol am gynllunio cwricwlwm. Bydd yn rhaid i'r canlynol ystyried y canllawiau wrth gynllunio cwricwlwm:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- darparwr addysg feithrin nas cynhelir a ariennir
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion
- person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56)
- awdurdod lleol yng Nghymru.

Gall y canllawiau hefyd fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr, consortia rhanbarthol, cyrff dyfarnu, Estyn, undebau athrawon, sefydliadau crefyddol, sefydliadau anghrefyddol, rhieni a gofalwyr a chyrff eraill yng Nghymru sydd â diddordeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Nid oes rhaid i'r cyrff hyn ystyried y canllawiau ond gall fod yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol iddyn nhw gyfeirio atyn nhw er mwyn deall cynnwys cwricwlwm lleoliad penodol yn well.

### ***Ysgolion Yr Eglwys yng Nghymru***

Mae mwy o wybodaeth ar ganllawiau'r Eglwys yng Nghymru i'w gweld [yma](#).

### ***Ysgolion Catholig***

Mae mwy o wybodaeth ar ganllawiau Ysgolion Catholig i'w gweld yma [\(Link to follow\)](#).

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar yr ALI i adolygu'r Maes Llafur Cytûn bob pum mlynedd.

## **Dylai ysgolion nodi'r pwyntiau canlynol:**

Yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 mae'r Maes Llafur Cytûn yn datgan:

- mai Cristnogol yn bennaf yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru a rhoddir ystyriaeth i ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru;
- y ffaith bod ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol, yng Nghymru.

**Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran crynodeb cyfreithiol ar Hwb:**

[Cyswllt i Gwricwlwm Cymru: Crynodeb o'r Ddeddfwriaeth – Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#)

Rydym yn cynghori'n gryf y dylai Llywodraethwyr a Phenaethiaid ymgyswngu â'r crynodeb hwn

# Y Cwricwlwm Crefydd Gwerthoedd a Moeseg

## Amser yn y Cwricwlwm

Ar bob cam cynnydd, mae angen digon o amser ac adnoddau i ddarparu cwrs astudio effeithiol a chydlynol. Fel elfen orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru, **dylai CGM fod yr un mor gyfartal â disgyblaethau eraill o fewn Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) y Dyniaethau.**

## Cynllunio'r Cwricwlwm

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gynnig addysg eang a chytbwys, sy'n galluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng y gwahanol ddisgyblaethau a meysydd dysgu a phrofiad. Felly, dylai cynllunio'r cwricwlwm ddwyn gwahanol ddisgyblaethau ynghyd, gan gynnwys CGM, i roi profiad dysgu cydlynol a chyfannol i ddysgwyr, ac ymgorffori'r canlynol:

- sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol;
- y sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben;
- ystyried y themâu trawsbynciol.

**Mae mwy am rôl disgyblaethau mewn dysgu ar gael yma:**

[Cyswllt i'r Egwyddorion ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm - Hwb \(llyw.cymru\)](#)



Wrth gynllunio a pharatoi eich cwricwlwm CGM dylech nodi'r meysydd canlynol. Gweler isod ddolenni a fydd yn eich tywys i'r adrannau perthnasol o'r canllawiau ar wefan Hwb:

- [Dyniaethau: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig](#)
- [Disgrifiadau Dysgu \(Camau cynnydd\)](#)
- [Cysyniadau CGM](#)
- [Safbwyntiau CGM \(Is-lensys o fewn CGM\)](#)
- [Cynnydd dysgwyr a theithiau dysgu o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#)
- [Datblygiad ysbrydol y dysgwyr](#)

Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, dylent gael mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â gwahanol ddisgyblaethau ac i arbenigo ynddynt, yn enwedig pan fyddant yn cyrraedd y camau cynnydd diweddarach. Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn dweud wrthym y dylid ategu at y broses hon drwy addysgu mewn modd sy'n arbenigo yn y ddisgyblaeth, a ddylai, ynghyd â'r dull amlddisgyblaethol o gynllunio'r cwricwlwm, baratoi dysgwyr sy'n dymuno arbenigo ymhellach yn 16 oed. **Bydd, felly angen galw ar arbenigwyr i addysgu CGM ac arbenigwyr i gael mewnbwn wrth gynllunio'r cwricwlwm CGM o fewn y Dyniaethau.**

Er y dylai dysgwyr gael cyfleoedd i arbenigo, rhaid i'r cwricwlwm barhau i fod yn eang ac yn gytbwys, a dylai pob dysgwr barhau i fanteisio ar ddysgu o bob Maes Dysgu a Phrofiad drwy gydol eu hamser mewn addysg orfodol, sy'n cynnwys elfen orfodol CGM. Disgwylir i ysgolion alluogi pob dysgwr i gael mynediad at ystod o gyrsiau astudio ac ennill cymwysterau addas ar ddiwedd addysg orfodol.

## Gweithredu

Bydd y maes llafur cytûn hwn yn Nhorfaen yn weithredol o fis Medi 2022, o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a hynny ar gyfer pob dysgwr, hyd at, a chan gynnwys blwyddyn 6. O ran dysgwyr blwyddyn 7, bydd gan ysgolion yn y rhanbarth yr hyblygrwydd i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, neu gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd ym mis Medi 2023. Yn ystod cyfnod cyflwyno'r cwricwlwm, wrth i ysgol uwchradd neu leoliad 'fabwysiadu' Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar gyfer grŵp blwyddyn penodol, bydd y maes llafur cytûn hwn yn disodli'r maes llafur cytûn presennol / a etifeddwyd. O fis Medi 2023, bydd y maes llafur cytûn hwn, mewn perthynas â blynyddoedd 7 ac 8, gan y bydd pob ysgol a lleoliad wedi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y dysgwyr hynny. Ar ôl hynny, bydd cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn raddol yn parhau, a bydd y maes llafur cytûn hwn yn disodli'r llall:

- dysgwyr blwyddyn 9 ym mis Medi 2024
- dysgwyr blwyddyn 10 ym mis Medi 2025
- dysgwyr blwyddyn 11 ym mis Medi 2026

**Mae rhagor o wybodaeth i ysgolion a lleoliadau am y broses o ddewis cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â dysgwyr blwyddyn 7 ar gael yma:**

[Y daith i gyflwyno'r cwricwlwm](#)

## CGM ÔI-16

Yn y Cwricwlwm i Gymru, mae statws gorfodol CGM wedi'i ddileu ar gyfer pob Chweched Dosbarth mewn ysgolion a gynhelir. Felly, o 2027 ymlaen bydd CGM yn ddewisol i'r dysgwyr hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal ysgolion unigol sydd â Chweched Dosbarth rhag cynnwys CGM ar amserlen pob myfyriwr os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae gan ddisgyblion chweched dosbarth **yr hawl i 'ddewis' CGM a byddai'n rhaid i'r ysgol ddarparu CGM ar gais i ddysgwyr, a hynny yn ôl y gyfraith.**

Mae amrywiaeth o ffyrdd y gall ysgol ddarparu CGM ar gyfer Disgyblion Chweched Dosbarth sy'n galw amdano. I gael cyngor ar y math hwn o ddarpariaeth, gall ysgolion gysylltu â Phartner CGM neu CYS Torfaen am gymorth. Mae'r manylion cyswllt ar gael ar dudalen 2 y ddogfen hon.

Mae mwy o wybodaeth am CGM OI-16 i'w gweld yma:  
[Cyswllt i Ganllawiau CGM ÔI-16](#)

# Yr hawl i dynnu'n ôl yn y Cwricwlwm i Gymru

O fis Medi 2022, ni fydd gan rieni hawl i dynnu dysgwyr yn ôl o addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg wrth i'r Cwricwlwm newydd i Gymru gael ei weithredu yn eu grŵp blwyddyn. **Bydd yr hawl i dynnu'n ôl yn parhau hyd nes y bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei gyflwyno i'w grŵp blwyddyn.** Mae'r amserlen ar gyfer y newidiadau hyn fel a ganlyn:

Disgyblion o oed cynradd – Medi 2022

Disgyblion BI 7 – Medi 2022 NEU Medi 2023 (dibynnu ar bryd y bydd y Cwricwlwm i Gymru yn cael ei weithredu yn eu hysgol).

Disgyblion BI 8 – Medi 2023

Disgyblion BI 9 – Medi 2024

Disgyblion BI 10 – Medi 2025

Disgyblion BI 11 – Medi 2026

Mae hyn yn unol â phob pwnc academaidd arall yn y cwricwlwm i Gymru.

**Mae mwy o wybodaeth am yr hawl i dynnu'n ôl, yn y crynodeb cyfreithiol ar Hwb:**

[Cyswllt i'r Cwricwlwm yng Nghymru: Crynodeb o Ddeddfwriaeth – Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#)

## Addoli ar y Cyd

Mae Addoli ar y Cyd yn **wahanol** ac yn **ychwanegol** i'r amser cwricwlwm a roddir i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae addoli ar y cyd y tu allan i'r cwricwlwm ac mae ganddo ei statws a'i ofynion cyfreithiol ei hun a rhaid iddo fod o gymeriad Cristnogol yn bennaf, neu'n gyfan gwbl.

Noder, **gall rhieni dynnu eu plant yn ôl o 'addoli ar y cyd' o fis Medi 2022**, os ydynt yn dymuno, am fod hyn yn wahanol ac yn rhywbeth ar wahân i'r pwnc academaidd, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

## Cwynion

O dan y Ddeddf Addysg, rhaid i'r ALI ddarparu trefniadau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion sydd heb eu datrys. Felly, bydd y CYS ar CGM yn ystyried cwynion heb eu datrys am ddarparu CGM (neu ddiffyg darpariaeth CGM os nad yw eich mater wedi'i ddatrys ar lefel ysgol. Bydd y trefniant hwn yn rhoi cyfle i rieni ac eraill sicrhau y darperir CGM yn briodol ar draws pob ysgol yn Nhorfaen.